

Bwrsariaeth prosiect archifau Cymru-Llydaw: Galwad agored

**Galwad i fyfyrwyr ac ymchwilwyr gyrfa gynnar i ymgeisio am fwrsariaeth  
ar brosiect archifau Cymru-Llydaw**



Agor yr alwad: 11 Ionawr 2023

Dyddiad cau: 28 Chwefror 2023

Cyfweliad: Mawrth 2023

Cyfnod ymchwilio: Ebrill 2023 - Rhagfyr 2023

**Beth yw'r prosiect?**

Mae Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, ar y cyd gyda'r Centre de recherche bretonne et celtique, Prifysgol Brest, wedi derbyn cyllid i ymchwilio i archifau Llydewig Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac archifau Cymraeg a gedwir yn Llydaw. Dros gyfnod o ddwy flynedd bwriedir cyd-destunoli, dadansoddi a digido detholiad o'r testunau. Bydd hyn yn ehangu mynediad i'r dogfennau ac yn rhoi inni ddarlun llawnach o'r berthynas rhwng Cymru a Llydaw dros y ddwy ganrif ddiwethaf.

Rydym yn gwahodd myfyrwyr ymchwil, myfyrwyr sydd ar eu blwyddyn olaf o radd BA, ac ymchwilwyr gyrfa gynnar, i ymgeisio am fwrsariaeth er mwyn cymryd rhan yn y prosiect yn ystod 2023. Rhaid eich bod yn medru darllen a siarad Cymraeg, Ffrangeg a/neu Lydaweg yn gwbl rhugl. Rhaid bod gennych ddi-ddordeb yn y cysylltiadau hanesyddol rhwng Cymru a Llydaw.

**Beth a gynigir?**

- Mae'r fwrsariaeth yn cynnig cyfle gwyb i ymchwilydd gyrfa gynnar i weithio gyda thîm profiadol ar brosiect cyffrous a fydd yn agor archifau i ymchwilwyr y dyfodol. Byddwch yn cael:
  - Cefnogaeth gyffredinol
  - Cyfarwyddyd arbenigol ar sut i ddefnyddio'r archif yn Llydaw
  - Eich mentora i baratoi papur cynhadledd 20 munud i'w draddodi mewn gweithdy yn Aberystwyth 2024
  - Llety yn Llydaw (am un wythnos) a chostau teithio (dosbarth economi) o Gymru/Deyrnas Gyfunol i Lydaw ac yn ôl.
  - Ffi (gros £1,500 gan gynnwys bob treth) a chynhaliath (gros £280)

NODER: Rhaid i'r ymgeiswyr gyrraedd pob maen prawf er mwyn cael eu hystyried ar gyfer y fwrariaeth.

**Sut i ymgeisio:** <https://forms.gle/TZ4WR4KeWf4gnq2x8>

Ceir rhagor o fanylion am y prosiect yma: [Datganiadau i'r Wasg 2022 | University of Wales Trinity Saint David \(uwtsd.ac.uk\)](#)

Unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Athro Heather Williams [h.williams@cymru.ac.uk](mailto:h.williams@cymru.ac.uk) neu Dr Angharad Elias [canolfan@cymru.ac.uk](mailto:canolfan@cymru.ac.uk)

## GDPR

Drwy gyflwyno'r Cais i'r Alwad Agored hon, rydych yn rhoi eich caniatâd i'r wybodaeth a ddarperir yn y Cais gael ei chynnal ar gyfrifiadur neu systemau ffeilio perthnasol eraill a chael eich rhannu â sefydliadau achrededig eraill neu bersonau yn unol â'r GDPR 2018.

## Preifatrwydd

Byddwn yn prosesu ac yn cadw data personol yn unol â deddfwriaeth berthnasol bob amser. Defnyddir y wybodaeth a gyflwynir at ddibenion y broses ddethol yn unig. Cyhoeddir enwau a bywgraffiadau byrion o'r ymgeiswyr llwyddiannus.

